**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am Yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 2 Mai 2024**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John T Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Prys Morgan, Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies, Vicki Spencer-Francis

**Trwy Wahoddiad:** Maria Richards, Llywodraeth Cymru

**Y Swyddogion Gweithredol**
Heather Anstey-Myers, Prif Weithredwr Dros-dro
Julie Davies-Jones, Ysgrifenyddiaeth (hyd at eitem agenda 5)
Pip Gill, Swyddog Gweithredol Ymgyrchoedd (eitem agenda 6f)
Jo Horder, Ysgrifenyddiaeth (o eitem agenda 6)
Gareth Jones (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)
Rachael Madeley-Davies, Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol
Laura Pickup, Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau
Eleri Thomas (eitem 6g)
Russ Thomas, Arweinydd Datblygu Polisi (eitem 6g)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i gyfarfod y Bwrdd gan y Cadeirydd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad o ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol:

18 Mawrth 2024 – cyfarfod diweddaru HCC ac NFUCymru, Llanfair-ym-Muallt, a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol.

20 Mawrth 2024 – Bu'r Cadeirydd a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn rhith-gyfarfod Llywodraethiant Chwarterol Llywodraeth Cymru a HCC.

4 Ebrill 2024 – Diweddariad Bwrdd HCC drwy Teams.

18 Ebrill 2024 – Bu'r Cadeirydd yn cynrychioli HCC yn yr Uwch-gyfarfod Tywydd Eithafol a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd nifer o randdeiliaid allweddol yn rithiol bresennol.

30 Ebrill 2024 – Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod rhagarweiniol gyda Denise McQuade, Prif Gonswl Iwerddon yng Nghaerdydd.

Parhaodd cyfarfodydd Teams cyson gyda'r Prif Weithredwr Dros-dro.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Aelod o'r Bwrdd, Gareth Wynn Davies, a'r Prif Weithredwr, Gwyn Howells, (a oedd ar seibiant salwch o hyd).

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

Llythyr Cyfrinachedd a Gwrthdaro Buddiannau a Gwrthlwgrwobrwyo heb ei lofnodi

Cafodd y Bwrdd ei atgoffa gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol fod angen llofnodi a dychwelyd yr uchod.

**Gweithredu:Y Bwrdd**

4. **I gymeradwyo cofnodion o gyfarfodydd y Bwrdd:**

a. *Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Mawrth 2024 (HCC 1191)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

b. *Cyfarfod diweddaru Teams y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 4 Ebrill 2024 (HCC 1192)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

5. **Materion yn codi o Eitemau 4a a 4b uchod**

*Eitem 4a*

Nodwyd bod yr holl gamau gweithredu o'r cofnodion wedi eu cymryd.

*Eitem 4b*

Nodwyd bod camau gweithredu o'r cofnodion wedi'u cymryd heblaw am y canlynol a oedd yn mynd rhagddynt:

*Adolygiad o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)* ar gyfer Marchnata Strategol a Chysylltiadau

Roedd yr uchod yn parhau fel gwaith ar y gweill wrth i ganlyniadau targed barhau i gael eu derbyn. Câi'r canlyniadau hyn eu defnyddio i sefydlu data sylfaenol ar gyfer y DPAau.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Darparu (HCC 1193)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

*b.* *Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1194)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

Trafodwyd yr agweddau pryderus a gyflwynwyd yn yr adroddiad ynghylch trwybwn defaid o dan Eitem 6c.

*c.* *Ariannol – Cyfrifon Rheoli tan 31 Mawrth 2024 (HCC 1195)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

Tynnwyd sylw at faterion allweddol y dylai'r Bwrdd wybod amdanynt.

Byddai'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn dal i chwilio am gyfleoedd i fod yn fwy effeithlon drwy leihau gwariant pan fyddai hynny'n briodol a chynyddu incwm.

Adroddwyd bod y gwaith archwilio allanol wedi'i amserlennu am bythefnos ar ddiwedd mis Gorffennaf/ dechrau mis Awst 2024. Bydd hyn yn sicrhau digon o amser i gwblhau'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ym mis Hydref 2024 ac i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2024.

Nodwyd gwaith sydd heb ei wneud ac sydd ar y gweill. Roedd hyn yn cynnwys prisiad o adeiladau HCC y disgwylir iddo aros ar £600k yn unol â datganiadau ariannol cyfredol.

O ran y rhwymedigaeth ddigwyddiadol mewn perthynas â chynllun pensiwn yr MLC, nid oedd adolygiad ffurfiol wedi'i drefnu eleni (prisiad bob tair blynedd). Yn seiliedig ar berfformiad y marchnadoedd ariannol dros y 12 mis diwethaf, byddai unrhyw adolygiad nawr yn debygol o arwain at ostyngiad pellach yn y ffigwr rhwymedigaeth. Fodd bynnag, byddai'r gost o wneud cais am brisiad y tu allan i'r cylch yn ormodol a dylai crynodeb fod yn ddigon i'r archwilwyr i gadw'r rhwymedigaeth ar yr un lefel ar gyfer 2023 - 2024.

Nodwyd yr uchod gan y Bwrdd.

**Gweithredu:** **Prif Weithredwr Dros-dro**

Cafwyd trafodaeth wedyn ar y ffigurau cyfaint a rannwyd yn yr adroddiad, sy'n dangos gostyngiad o 9% yn y trwybwn defaid ar gyfer y flwyddyn, a goblygiadau'r tueddiad gostyngol hwn i HCC a'r diwydiant ehangach yng Nghymru. Teimlwyd bod y sefyllfa'n arwyddocaol gan fod y gostyngiad hwn wedi digwydd cyn i effeithiau newidiadau i bolisïau Llywodraeth Cymru megis Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru), TB mewn Gwartheg a Thaliadau Fferm Sengl gael effaith lawn ar ffermwyr, ffactorau a allai olygu gostyngiad yn niferoedd y defaid yn y dyfodol. Mynegodd y Bwrdd bryder gwirioneddol dros y diwydiant wrth wynebu'r dyfodol.

Trafodwyd rôl allweddol HCC a'r Bwrdd wrth godi'r pryderon hyn gyda Llywodraeth Cymru a theimlwyd bod y cyfle i gwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet cyn gynted â phosibl i drafod y materion hyn yn hollbwysig.

Cydnabu Maria Richards, Llywodraeth Cymru, fod y rhain i gyd yn bwyntiau dilys a rhoddodd sicrwydd i'r aelodau bod cyfarfod gyda HCC a'r Bwrdd ar agenda Ysgrifennydd y Cabinet. Roedd cyfarfod o amgylch y bwrdd a fyddai'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant, gan gynnwys Cadeirydd HCC, hefyd yn cael ei drefnu a byddai'n rhoi cyfle pellach i ymgysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y materion hyn.

Cydnabuwyd y dylid datblygu cynnig yn amlinellu'r negeseuon rhychwantol allweddol i'w codi gydag Ysgrifennydd y Cabinet.

*d.* *I dderbyn papur ar Adolygiad Diwedd Blwyddyn o Gynllun Gweithredol HCC 2023 / 2024 (HCC 1196)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen ac fe'i cyflwynwyd gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol a'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu Strategol.

Nodwyd y byddai'r canlyniadau DPA na chafodd eu cynnwys yn y papur yn cael eu casglu ar gyfer y cyfarfod Bwrdd nesaf.

*e.* *Digwyddiadau i ddod (HCC 1197)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

Rhoddodd y Pennaeth Marchnata a Chysylltiadau Strategol ddiweddariad i'w Bwrdd am y cynlluniau ar gyfer presenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru, gan ystyried y gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer eleni.

Byddai'r stondin yn llai nag o'r blaen ac yn fwy corfforaethol, gyda'r nod o wneud rhanddeiliaid yn fwy ymwybodol o'r gwaith y mae HCC yn ei wneud.

Byddai llai o bwyslais ar y defnyddwyr, heb unrhyw goginio yn digwydd ar y stondin. Yn lle hynny, roedd HCC am weithio mewn partneriaeth â mân-werthwyr i ddarparu arddangosiadau coginio ar eu stondinau nhw. Byddai hynny'n rhoi'r fantais ychwanegol o gryfhau'r berthynas â mân-werthwyr.

Byddai HCC hefyd yn cynnal amrywiaeth o seminarau gyda'r diwydiant, yn ogystal â gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar eu stondin masnach.

Drwy hyn i gyd, byddai gan HCC bresenoldeb mwy gweladwy ledled y sioe a byddai'n galluogi mwy o gydweithio â phartneriaid yn y diwydiant nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Teimlwyd bod y cynllun yn dangos arloesedd a chafodd dderbyniad da gan y Bwrdd.

*f.* *I dderbyn cyflwyniad am werthusiad o ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI 2023 / 2024*

Cafwyd cyflwyniad am yr uchod gan Pip Gill, Swyddogion Gweithredol Ymgyrchoedd:

Yn gyffredinol, bu'r ymgyrch yn llwyddiannus iawn, gyda'r canlyniadau allweddol yn cael eu cyflwyno:

- Cafwyd cynnydd o 70% yn 2023 i 85% yn 2024 yn ymwybyddiaeth defnyddwyr o enw brand Cig Eidion Cymru, ac roedd y llinell sylfaen ar gyfer ymwybyddiaeth o logo'r brand ar lefel uchel o 73%;
- Canfyddiad / priodoliad defnyddwyr o'r brand o ran:

  - Ansawdd uchel - wedi cynyddu o 47% yn 2023 i 50% yn 2024 (targed 48%)
  - Blas gwych – gostyngiad o 41% yn 2023 i 38% yn 2024 (targed 42%)
  - Ethos cynaliadwy – yn dal ar 24% (targed 25%)
  - Cynnyrch iach – llinell sylfaenol wedi'i sefydlu ar 20%
  - Cynnyrch hyblyg – llinell sylfaenol wedi'i sefydlu ar 6%;

- Cynyddodd tueddiad defnyddwyr i brynu o 44% yn 2023 i 65% yn 2024 (targed 45%)

Cafwyd llongyfarchiadau gan y Bwrdd am y gwaith ar yr ymgyrch a'r canlyniadau positif a gafwyd.

*g.* <u>Derbyn cyflwyniad ar gyfleoedd ariannu a phrosiectau cyfredol HCC</u>

Cyflwynodd Russ Thomas, Arweinydd Datblygu Polisi, ac Eleri Thomas, Swyddog Gweithredol Datblygu Polisïau a Phrosiectau'r Dyfodol ar yr uchod:

Y pwyntiau allweddol a amlygwyd oedd:

- Bod y dirwedd ariannu wedi newid ac yn mynd yn fwy heriol;
- Bod HCC ar hyn o bryd yn rhedeg dau brosiect wedi'u hariannu;
- Prosiect ArloesiAber i archwilio ansawdd bwyta'r cig o Gig Oen Cymru PGI ffres ac wedi'i rewi, gan brofi ansawdd bwyta, lliw a cholli diferion. Roedd hwn yn brosiect chwe-mis tan fis Hydref 2024 a byddai cyfleusterau ArloesiAber a staff IBERS yn cael eu defnyddio.
- Prosiect Cronfa Her Arfor yn ymchwilio i ddatgarboneiddio Cig Eidion Cymru PGI. Roedd hwn yn brosiect deuddeg-mis hyd at fis Rhagfyr 2024, yn cynnwys ffermwyr cig eidion Cymraeg eu hiaith yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.
- Bydd HCC yn dal i archwilio'r holl gyfleoedd ariannu, yn adeiladu ar ei rwydweithiau sy'n ehangu ac yn gwella cydweithrediad â phartneriaid yn y diwydiant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu cyflwyniad ac am y cyfleoedd a'r materion a nodwyd.

*h.* *<u>Derbyn papur ar sector cig eidion y fuches laeth (HCC1198)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafwyd crynhoad ohono gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol.

Cafwyd trafodaeth ar y pwyntiau a godwyd yn y papur, y cyfleoedd posibl y gallai cig eidion o'r fuches laeth eu cynnig i'r sector cig eidion gan ystyried y logisteg yng Nghymru.

Cytunwyd i ystyried cynnwys y papur ymhellach ar gyfer trafodaeth bosibl yn ddiweddarach.

7. **Pwyllgorau HCC**

Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

*a.* *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 26 Chwefror 2024 (HCC 1199)*

Cymerwyd bod y cofnodion wedi'u darllen a chawsant eu cymeradwyo gan y Bwrdd

Y Grŵp Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy

*d.* *Cymeradwyo cofnodion y Grŵp Arloesedd ac Ymchwil Cynaliadwy a gynhaliwyd ddydd Mawrth 27 Chwefror 2024 (HCC 1200)*

Nodwyd na chafodd y cofnodion eu cymeradwyo eto gan y Grŵp.

Cytunwyd y byddai'r cofnodion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w mabwysiadu yng nghyfarfod 4 Gorffennaf 2024 ar ôl cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Grŵp ar 16 Mai 2024.

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

8. **Papur er gwybodaeth: Data tueddiadau ymgyrch Defnyddwyr Cig Oen Cymru (HCC 1201)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

9. **Unrhyw fater arall**

*EIDCymru*

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r cynnydd o ran cyflwyno'r system olrhain amlrywogaeth newydd.

Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd dderbyn diweddariad ar y system amlrywogaeth a'r EID mewn perthynas â gwartheg mewn cyfarfod yn y dyfodol agos.

**Gweithredu: Y Cadeirydd / Maria Richards, Llywodraeth Cymru**

10. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Diweddaru'r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 6 Mehefin 2024 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 4 Gorffennaf 2024 am 10am

**Sesiwn Caeedig o Fwrdd HCC**

Dilynodd cyfarfod ar wahân a chyfrinachol o'r Bwrdd.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**